

Y Gymraeg Mewn Arfer Proffesiynol (ECAD6022-C) 2025-26



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 5 a 6 :
25ain o Dachwedd 2025
Cenedl enwau a'r treigladau

bethan.griffiths@pcydds.ac.uk

Nod ac amcanion



- Adolygu rhannau ymadrodd.
- Edrych yn fanylach ar enwau yn y Gymraeg
- Datblygu dealltwriaeth am effaith cenedl yr enw ar ramadeg yr iaith gyda'r nod o wella'n cywirdeb.

YMARFER SYDYN



Ysgrifennwch eich syniadau ar
www.menti.com

<https://www.menti.com/alg16aank7je>



- Sawl rhan ymadrodd y gallwch chi feddwl amdanyn nhw?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David


Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGOR iaith

www.athrofa.cymru



Pwy sy'n cofio? Beth ydy'r rhain?



enw	rhagenw	ansoddair	cysylltair
arddodiad	y fannod	berfenw	berf
goddrych berf	gwrthrych berf	adferf	



Amser gwirio eich atebion:



enw	Gair sy'n cael ei roi ar rywbeth er mwyn ei adnabod a gwybod beth ydyw.
rhagenw	Gair a ddefnyddir yn lle enw.
ansoddair	Gair sy'n disgrifio enw neu ragenw h.y. dweud sut beth ydyw.
cysylltair	Gair sy'n cysylltu geiriau, cymalau neu frawddegau.
arddodiad	Gair sy'n dangos y berthynas rhwng un person neu beth a pherson neu beth arall.

Amser gwirio eich atebion:




y fannod	Gair sy'n gwneud enw'n benodol ydyw a cheir tair ffurf bendant yn y Gymraeg.
berfenw	Gair sy'n dangos- enw'r gweithgaredd yn unig.
berf	Gair sy'n nodi beth sy'n cael ei wneud. Mae'n cyflawni tair swyddogaeth - dangos person (fel arfer), amser a gweithred .
goddrych berf	Dyma'r un sy'n gwneud y weithred.
gwrthrych berf	Dyma'r un sy'n dioddef y weithred.
adferf	Gair sy'n disgrifio berf , ansoddair neu adferf arall.

Tasg adolygu

Troi'r Olwyn:

Allwch chi
feddwl am
enghraifft
ar gyfer y
rhannau ymadrodd
canlynol?



Beth ydy 'enw'?

Enw (noun) ydy peth/gwrthrych.


Fel arfer yn rhywbeth ry'n ni'n gallu ei weld e.e.
cadair, llyfr, drws.

Mae enwau haniaethol yn rhai dydyn ni ddim yn
gallu eu gweld e.e. cariad, hiraeth.

Cenedl enwau



Pwy sy'n cofio pam bod cenedl enwau yn bwysig?



Cenedl enwau

Mae gan bob enw yn y Gymraeg genedl, hynny yw, mae naill ai'n fenywaidd neu'n wrywaidd. Yn y geiriadur dynodir cenedl enw fel hyn:

coeden

eb

tree

Geiriadur Cyffredinol Cysgair

ci

eg

dog

Geiriadur Cyffredinol Cysgair



Cenedl enwau

Er gwybodaeth, mae cenedl rhai geiriau yn amrywio yn ôl ardal neu dafodiaith.

Er enghraifft, mae'r gair *munud* yn tueddu i fod yn wrywaidd yn Gogledd ac yn fenywaidd yn y De.

Gogledd – dau funud; y munud hwnnw

De – dwy funud; y funud honno

Cenedl enwau

Yn y geiriadur, defnyddir **egb** i ddynodi enw a all fod naill ai'n wrywaidd neu'n fenywaidd.

munud
(2)

cofnodion sy'n cyfateb i
'**munud**'

munud
eg/b
minute

Geiriadur Cyffredinol Cysgair

munud eg/b munudau minute n
Y Termiadur Addysg - Ffiseg a Mathemateg

Ysgrifennwch 10 enw unigol fydddech chi'n gweld mewn ystafell ddosbarth




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORiaith

www.athrofa.cymru

Amser Ymarfer -
Enw Benywaidd neu Enw Gwrywaidd?



MAE'R TERFYNIADAU HYN FEL ARFER **YN WRYWAIDD**


-awd (traethawd)
-aint (maint)
-tid/did (ieuenctid)
-rwydd (distawrwydd)
-adur (cyfrifiadur)



-wr (chwaraewr)
-edd (mawredd)
-yn (offeryn)
-iad (mynediad)
-deb (undeb)




MAE'R TERFYNIADAU HYN FEL ARFER **YN FENYWAIDD**

- aeth (barddoniaeth)
- fa (campfa)
- en (seren)
- ach (cyfrinach)
- as (cymwynas)



- es (ysgrifenyddes)
- ell (llinell)
- eb (anfoneb)
- eg (dameg)

Defnyddiwch eiriadur... enw gwrywaidd neu enw benywaidd?



eg = enw gwrywaidd

eb = enw benywaidd










Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAith

www.athrofa.cymru

Llyfrau defnyddiol i'r dosbarth cynradd...




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Defnyddio geiriadur yn y dosbarth



Esboniad o'r gair.




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGOR iaith

www.athrofa.cymru

Defnyddio geiriadur yn y dosbarth



Cenedl yr enw.

cadair *hon enw* (**cadeiriau**) sedd i un
person **CHAIR**

Esboniad.

Cyfieithiad.

Ffurf lluosog.




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGOR iaith

www.athrofa.cymru

Defnyddio geiriadur yn y dosbarth



Cenedl yr enw: (*eb*) enw benywaidd.
y gadair hon.

Ffurff
lluosog.

cadair hon *eb* (cadeiriau)

1 sedd â chefn a phedair coes ar gyfer un person; stôl
CHAIR

2 (mewn enwau lleoedd) mynydd ar ffurf cadair, neu le
cadarn neu gaer, e.e. *Cadair Idris*, *Pencadair* (sef
Pencader)

3 pwrs, piw buwch neu ddafad neu afr UDDER

4 gwobr eisteddfodol i feirdd neu lenorion; yn yr
Eisteddfod Genedlaethol rhoddir y gadair i un o
brifeirdd yr ŵyl, y bardd sy'n ennill cystadleuaeth yr
awdl CHAIR

5 swydd athro mewn prifysgol CHAIR (cadeiriol)

cadair esmwyth cadair fawr gyfforddus EASY CHAIR

Ystyron
gwahanol.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales


RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Defnyddio geiriadur yn y dosbarth

Cenedl yr enw: (eg) enw gwrywaidd.
y bwrdd hwn.

Ffurff
lluosog.



bwrdd *eg* (byrddau)

1 dodrefnyn â thop gwastad ar goes neu goesau y gellir eistedd wrtho i fwyta, gweithio, chwarae, etc.; bord table

2 (*yn derbyn ffurf unigol neu luosog berf*) grŵp swyddogol o bobl sy'n arfer cynnal eu cyfarfodydd o gwmpas bwrdd; corff, pwyllgor board

3 llawr llong; dec deck

4 astell, planc, ystyllen plank

5 darn o ddefnydd ag wyneb gwastad at ddefnydd arbennig, *bwrdd hysbysebion*, *bwrdd sglefrio* board

bwrdd bysedd *eg* (byrddau bysedd)
CERDDORIAETH y gwddf hir ar offeryn llinynnol (megis feiolin, gitâr, etc.) y mae tannau'n cael eu gwasgu yn ei erbyn â'r bysedd er mwyn

Ystyron
gwahanol.



Pam bod gwirio cenedl enw yn bwysig?

- Mae'n dangos pryd y dylwn ni dreiglo e.e.
- treiglo enw benywaidd yn feddal ar ôl 'y fannod' e.e. y **g**adair.
- treiglo ansoddair yn feddal ar ôl enw benywaidd: llyfr 'diddorol' neu 'ddiddorol'?
- treiglad meddal ar ôl 'ei' gwrywaidd e.e. ei **g**adair ef.
- treiglad llaes ar ôl 'ei' benywaidd e.e. ei **ch**ot hi.
- Hwn neu hon? y gadair hon a'r bwrdd hwn.

Dewch i ni edrych ar enghreifftiau...



Benywaidd/ Gwrywaidd: pwysigrwydd cenedl enw


ADRODDIAD- eg

- Treuliwyd chwe mis yn rhoi'r **adroddiad** **hwn** at ei gilydd.
- Mae'n adroddiad **cynhwysfawr**, **diddorol** ac eang **ei apêl**.
- Bydd pawb sy'n **ei ddarllen** yn cael budd mawr **ohono**.

DOGFEN- eb

- Treuliwyd chwe mis yn rhoi'r ddogfen **hon** at ei gilydd.
- Mae'n **dd**ogfen **g**ynhwysfawr, **ddi**diddorol ac eang **ei hapêl**.
- Bydd pawb sy'n **ei darllen** yn cael budd mawr **ohoni**.





Beth ydy'r rheolau
sy'n rhaid i ni eu
cofio?



Y tabl treiglo

Llythyren cyn treiglo	Treigladd meddal	Treigladd trwynol	Treigladd llaes

Y tabl treiglo

Llythyren cyn treiglo	Treigladd meddal	Treigladd trwynol	Treigladd llaes
p	b	mh	ph
t	d	nh	th
c	g	ngh	ch
b	f	m	
d	dd	n	
g	-	ng	
ll	l		
m	f		
rh	r		



Y treigladd meddal

p	t	c	b	d	g	ll	m	rh
								
b	d	g	f	dd	-	l	f	r



y + enw benywaidd unigol

Treigladd meddal ar ôl 'y' :

y **g**adair
y **b**rifathrawes
y **d**aith
y **w**ers
y **f**reuddwyd

OND: dim ll / rh
y llygoden
y rhaglen



y + enw gwrywaidd

DIM treigladd

y cwrs	y gliniadur
y papur	y llyfr
y trêen	y drws

y + enw lluosog

DIM treigladd


y cadeiriau	y gwersi
y pensiliau	y rhaglenni
y teithiau	y taflenni



Treiglo + cenedl enwau.

Rhowch 'y' flaen bob un o'r enwau canlynol.

Beth sylwoch chi?





enw gwrywaidd

penderfyniad
tad
cyfrifiadur
bws
drws
geiriadur
mynydd

enw benywaidd

problem
tudalen
cacen
brawddeg
dogfen
gwraig
mynedfa






Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

Cymraeg/Saesneg

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n gallu cynhyrchu nifer o seiniau llafar yn gywir.	Rwy'n gallu siarad yn glir, gan amrywio mynegiant ac ystumiau er mwyn cyfathrebu fy syniadau. Rwy'n gallu defnyddio brawddegau syml ac aml-gymalog gan wneud dewisiadau er mwyn cyrraedd cynulleidfa benodol a chyflawni'r pwrpas a fwriadwyd.	Rwy'n gallu adnabod yr iaith briodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion gan amrywio fy mynegiant, geirfa a naws i ennyn diddordeb y gynulleidfa.	Rwy'n gallu dewis ac addasu'r iaith briodol ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a dibenion, gan gyfleu ystyr yn effeithiol i'r gynulleidfa.	Rwy'n gallu argyhoeddi wrth gyfleu ystyr mewn ystod o gyd-destunau gan ennyn diddordeb llawn y gynulleidfa.
Rwy'n gallu cyfathrebu ystyr gan ddefnyddio iaith lafar estynedig a/neu ystum. Rwy'n dechrau defnyddio iaith briodol i siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol a'r dyfodol.	Rwy'n gallu cyfathrebu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol amrywiol ac yn gynyddol fanwl gywir. Rwy'n gallu defnyddio brawddegau syml ac aml-gymalog. Rwy'n gallu amrywio'r math o frawddegau rwy'n eu defnyddio yn fy iaith lafar.	Rwy'n gallu addasu a thrin iaith a gwneud dewisiadau priodol ynghylch geirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun yn rhugl ac eglur.	Rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus am eirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun yn rhugl, yn eglur ac yn gywir.	Rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch geirfa a gramadeg i cyfoethogi fy sgiliau cyfathrebu.



	Rwy'n gallu edrych ar fy ngwaith ac rwy'n dechrau defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau cyfarwydd i wella fy ngwaith llafar ac ysgrifennu. Rwy'n gallu egluro ble a pham rwyf wedi gwneud unrhyw newidiadau neu gywiriadau.	Rwy'n gallu myfyrio ar ansawdd fy mynegiant a defnyddio ystod o strategaethau i sicrhau mwy o eglurder yn fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig.	Rwy'n gallu myfyrio ar fy nefnydd o strategaethau i wella ansawdd, cywirdeb ac effaith fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig.	Rwy'n gallu myfyrio'n feirniadol ar fy nefnydd o iaith ac yn gallu ystyried yn wrthrychol effaith fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig.
Rwy'n dechrau cymryd fy nhro mewn sgysiau, gan ddilyn y pwnc dan sylw. Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn deall yn well.	Rwy'n gallu ymgymryd ag ystod o rolau a rheoli fy nghyfraniad yn briodol. Rwy'n gallu newid y modd rwy'n cyfathrebu, yn ôl lle'r wyf i a chyda phwy. Rwy'n gallu defnyddio iaith llafar at wahanol ddibenion. Rwy'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau a chyfnwid syniadau a gwybodaeth.	Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan ymofyn eglurhad, strwythuro dadleuon, crynhoi ac esbonio'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld.	Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan grynhoi a gwerthuso'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld, strwythuro dadleuon a herio gyda hyder a sensitifrwydd yr hyn y mae eraill yn ei ddweud.	Rwy'n gallu gwerthuso ac ymateb yn feirniadol i'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu ei weld.

Fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd

Rhan o [Cwricwlwm i Gymru](#)

CYNNWYS

Trosolwg

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Trosolwg

Mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn **sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol** o fewn Cwricwlwm i Gymru. Cyfrifoldeb yr ymarferwyr, ar draws pob maes y cwricwlwm, fydd datblygu a sicrhau cynnydd yn y sgiliau hyn. Mater i'w benderfynu arno ar lefel leol yw sut y bydd sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cael eu datblygu o fewn y cwricwlwm, a rhaid i hynny weddu hefyd i ddulliau gweithredu'r ysgolion unigol.

Er mwyn helpu ysgolion ac ymarferwyr i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu, ymestyn a chymhwyso'r sgiliau hyn, mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol wedi eu diweddarau ac yn parhau i fod ar gael fel canllawiau cynorthwyol anstatudol.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

▼ Llythrennedd: Ysgrifennu

Cam cynnydd 1

Cam cynnydd 2

Cam cynnydd 3



Geirfa, sillafu, gramadeg

Rwy'n gallu cyfathrebu gan wneud marciau, darlunio symbolau neu ysgrifennu llythrennau a geiriau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Rwy'n dechrau rhoi symbolau, arwyddion neu eiriau yn eu dilyniant priodol.

Rwy'n gallu adnabod natur trefn yr wyddor ysgrifennu a deall bod i symbolau ysgrifenedig ystyr.

Rwy'n gallu ysgrifennu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol ddychmygus, amrywiol a manwl gywir.

Rwy'n gallu defnyddio geirfa amrywiol, briodol a manwl gywir, gan gynnwys geiriau sy'n benodol i faes dysgu a phrofiad/disgyblaeth at ddibenion gwahanol.

Rwy'n gallu gwneud dewisiadau priodol am eirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun yn rhugl ac yn eglur ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol ac at ddibenion gwahanol.

Rwy'n gallu defnyddio iaith briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys ffurfiau safonol, e.e. *enwau, rhagenwau, ansoddeiriau, adferfau, arddodiaid, cysyllteiriau ac amseroedd y ferf*.



▼ Llythrennedd: Ysgrifennu

Cam cynnydd 1

Rwy'n gallu ysgrifennu o'r chwith i'r dde.

Rwy'n gallu gwahaniaethu rhwng llythrennau.

Rwy'n gallu gwahaniaethu rhwng priflythrennau a llythrennau bach.

Cam cynnydd 2

Rwy'n gallu defnyddio ffurfiau iaith safonol, gan gynnwys ffurfiau cryno, e.e. *rwy'n gweld/gwelodd e*, a chytundeb rhwng y goddrych a'r ferf, e.e. *roeddwn i*, *roedd hi*.

Cam cynnydd 3

Rwy'n gallu defnyddio ffurf safonol amrywiaeth o eiriau, e.e. *ffurfiau'r presennol, ffurfiau'r gorffennol a ffurfiau negyddol*.



▼ Llythrennedd: Ysgrifennu

Cam cynnydd 1

Rwy'n gallu ffurfio llythrennau.

Cam cynnydd 2

Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am seiniau a phatrymau llythrennau'n gywir wrth i mi sillafu, gan gynnwys:

- cytsain—llafariad—cytsain
- llythrennau dwbl cyffredin, e.e. *ch, ll*
- gwreiddiau syml, e.e. *rhagddodiaid -an*
- ôl-ddodiaid, e.e. *-wyr*
- terfyniadau lluosog yn gywir yn eu cyd-destun, e.e. *-au, -iau, -od*,
- amser gorffennol berfau yn gyson, e.e. *gwelais i, cysgais i*.

Cam cynnydd 3

Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am seiniau a phatrymau llythrennau'n gywir wrth i mi sillafu, gan gynnwys:

- gwreiddiau, e.e. *uwch, rhag*
- ôl-ddodiaid, e.e. *-ydd, -ant*
- terfyniadau lluosog yn gywir yn eu cyd-destun, e.e. *-au, -iau, -od*.



▼ Llythrennedd: Ysgrifennu

Cam cynnydd 1

Rwy'n gallu ysgrifennu geiriau ac ymadroddion gan ddefnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am lythrennau a'r seiniau maen nhw'n eu cynrychioli.

Cam cynnydd 2

Rwy'n gallu rhoi ymgais ar sillafu geiriau anoddach mewn ffordd resymol gan ddefnyddio ystod o strategaethau, gan gynnwys:

- teuluoedd geiriau
- gwreiddiau
- morffoleg
- gwybod am graffigau
- gwybod am ffonemau, e.e. *segmentu gair yn ffonemau unigol*.

Cam cynnydd 3

Rwy'n gallu defnyddio strategaethau i sillafu geiriau amlsillafog, cymhleth ac afreolaidd yng nghyd-destun pob maes dysgu a phrofiad.



Rwy'n gallu segmentu geiriau yn sillafau ac yn seiniau er mwyn fy helpu i sillafu.

Rwy'n gallu sillafu geiriau aml eu defnydd afreolaidd yn gywir.

Rwy'n dechrau ysgrifennu gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd.

Rwy'n gallu ysgrifennu'n ddarllenadwy.

Rwy'n gallu ysgrifennu'n ddarllenadwy ac yn rhugl.

▼ Llythrennedd: Ysgrifennu



Cam cynnydd 3

Rwy'n gallu defnyddio strategaethau i sillafu geiriau amlsillafog, cymhleth ac afreolaidd yng nghyd-destun pob maes dysgu a phrofiad.

Cam cynnydd 4

Rwy'n gallu defnyddio amrywiaeth o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau sy'n benodol i faes dysgu a phrofiad/disgyblaeth yn gywir.

Cam cynnydd 5

Rwy'n gallu defnyddio strategaethau i sillafu geiriau sy'n benodol i ddisgyblaeth a geiriau academaidd cyffredinol mewn cyd-destunau priodol.

Rwy'n gallu ysgrifennu'n ddarllenadwy ac yn rhugl.

Rwy'n gallu ysgrifennu'n ddarllenadwy ac yn rhugl.

Rwy'n gallu deall a defnyddio confensiynau ffurfiol iaith at ddibenion amrywiol, gan wneud defnydd effeithiol o adnoddau cyfeirio a chymhorthion cywirdeb.



▼ Llythrennedd: Ysgrifennu

Cam cynnydd 1

Rwy'n dechrau ffurfio llythrennau'n gywir gan ddal yn briodol yn yr offer ysgrifennu.

Rwy'n gallu dangos ymwybyddiaeth bod rhai llythrennau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. *dau gi, y gath*.

Cam cynnydd 2

Rwy'n gallu adnabod y llythrennau sydd yn aml yn newid ar ddechrau geiriau a chymhwyso'r newidiadau hynny mewn rhai cyd-destunau lle y bo angen treiglo.

Cam cynnydd 3

Rwy'n gallu cyflwyno fy ngwaith yn briodol mewn cyd-destunau digidol.

Rwy'n gallu treiglo'n gywir yn ôl y gofyn, gan gynnwys:

- treiglad meddal ar ôl 'ei' gwrywaidd, e.e. *ei goes ef*, ac ar ôl 'yn' traethiadol, e.e. *yn gyflym*
- treiglad trwynol ar ôl 'fy', e.e. *fy nghoes i*, ac ar ôl yr arddodiad 'yn', e.e. *yng Nghaerffili*
- treiglad llaes ar ôl 'ei' benywaidd, e.e. *ei choes hi*, ac ar gyfer cenedl enwau.



▼ Llythrennedd: Ysgrifennu



Cam cynnydd 3

Rwy'n gallu cyflwyno fy ngwaith yn briodol mewn cyd-destunau digidol.

Rwy'n gallu treiglo'n gywir yn ôl y gofyn, gan gynnwys:

- treigladau meddal ar ôl 'ei' gwrywaidd, e.e. *ei goes ef*, ac ar ôl 'yn' traethiadol, e.e. *yn gyflym*
- treigladau trwynol ar ôl 'fy', e.e. *fy nghoes i*, ac ar ôl yr arddodiad 'yn', e.e. *yng Nghaerffili*
- treigladau llaes ar ôl 'ei' benywaidd, e.e. *ei choes hi*, ac ar gyfer cenedl enwau.

Cam cynnydd 4

Rwy'n gallu cyflwyno fy ngwaith yn briodol mewn cyd-destunau digidol gan ddefnyddio confensiynau digidol priodol, e.e. *cryno-luniau*, *dewis iaith*.

Rwy'n gallu adnabod y defnydd o dreigladau, hepgoriadau mewn cyd-destunau gorfodol a/neu'r defnydd o dreigladau amhriodol pan ddisgwylir math arall o dreigladau.

Cam cynnydd 5

Rwy'n gallu adnabod yr amrywiol ddefnyddiau o dreigladau a chymhwyso pob un o'r tair proses (treigladau meddal, treigladau trwynol a threigladau llaes) mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau treigladau.



▼ Llythrennedd: Ysgrifennu

Cam cynnydd 1

Cam cynnydd 2

Cam cynnydd 3



Rwy'n gallu ffurfio fersiynau lluosog o enwau cyfarwydd diriaethol.

Rwy'n gallu ffurfio lluosog, e.e. *drwy ychwanegu terfyniad (merch>merched), newid bôn (bachgen>bechgyn), cyfuniad o'r ddau (braich>breichiau) a thynnu terfyniad (coeden>coed).*

Rwy'n gallu sillafu rhai geiriau gan ddefnyddio'r llafariad briodol y/u/i, e.e. *tŷ, llun, hir*, a deuseiniaid, e.e. *coed*.

Rwy'n gallu newid llafariad a deuseiniaid yn briodol ac addasu geiriau o ran ystyr, gan newid rhwng enwau unigol a lluosog neu nodi cenedl enwau benywaidd wrth ychwanegu ansoddair benywaidd, e.e. *taflen werdd, cath wen*.



▼ Llythrennedd: Ysgrifennu



Cam cynnydd 3

Rwy'n gallu ffurfio lluosog, e.e. *drwy ychwanegu terfyniad (merch>merched), newid bôn (bachgen>bechgyn), cyfuniad o'r ddau (braich>breichiau) a thynnu terfyniad (coeden>coed).*

Rwy'n gallu newid llafariad a deuseiniaid yn briodol ac addasu geiriau o ran ystyr, gan newid rhwng enwau unigol a lluosog neu nodi cenedl enwau benywaidd wrth ychwanegu ansoddair benywaidd, e.e. *taflen werdd, cath wen.*

Cam cynnydd 4

Rwy'n gallu llunio ffurfiau lluosog gyda'r newid llafariad/deusain priodol, e.e. *car>ceir.*

Rwy'n gallu ysgrifennu brawddegau sy'n gywir yn ramadegol gan roi sylw i rediad ac amser y ferf, a chyfatebiaeth rhwng person a chytundeb o ran cenedl.

Cam cynnydd 5

Rwy'n gallu ysgrifennu brawddegau sy'n gywir yn ramadegol gan redeg rhagddodiaid, a sicrhau amser y ferf, a chyfatebiaeth rhwng person a chytundeb o ran cenedl.

Cyfieithwch...



- the pupil
- the desk
- the trip
- the work sheet
- the course
- the desks
- the books

- y disgybl- gwrywaidd
- y ddesg- benwyaidd
- y daith- benywaidd
- y daflen- benywaidd
- y cwrs- gwrywaidd
- y desgiau- lluosog
- y llyfrau- lluosog



Disgrifio gwrthrychau

Pan fydd ansoddair yn disgrifio enw benywaidd unigol bydd yn treiglo'n feddal..


merch + tal = merch dal

nofel + da = nofel dda

Ond: merched (ffurf lluosog) + pwysig = merched pwysig.



Ansoddeiriau benywaidd



Mi welais Jac y Do
yn eistedd ar ben to,
Het wen ar ein ben
a dwy goes bren.
Ho ho ho ho ho ho!



Ansoddeiriau benywaidd

Bydd gan rai ansoddeiriau ffurfiau benywaidd a lluosog i'w defnyddio wrth ddisgrifio enwau benywaidd ac enwau lluosog.

1. deilen werdd



2. pêl gron



3. seren felen



4. rhestr fer



Beth am ddisgrifio'r geiriau canlynol?



brenhines

llyfr

arbrawf

taflen

gwlad

llun


gêm

cymeriad

castell





Yn y dosbarth ... CA2



<https://gwellar-gair.peniarth.cymru/>



Yn y dosbarth ... CA3 a 4



Cyfrif a chenedl enwau



Enw gwrywaidd
un ci

dau **gi**

tri **chi**

pedwar ci

pum ci

chwe **chi**

Enw Benywaidd
un **g**ath

dwy **g**ath

tair cath

pedair cath

pum cath

chwe **ch**ath



Cyfrif yn y dosbarth...



Cyfrif gwrthrychau

gwrywaidd...

Un cloc

Dau **gloc** – Treigladd meddal

Tri **chloc** – Treigladd llaf

Pedwar cloc

Pum cloc

Chwe **chloc** – Treigladd llaf

Cyfrif gwrthrychau

benywaidd...

Un **gadair** – Treigladd meddal

Dwy **gadair** – Treigladd meddal

Tair cadair

Pedair cadair

Pum cadair

Chwe **chadair** – Treigladd llaf





Enwau gwrywaidd

Dim treigladd ar ôl 'y':

y bachgen
y coleg
y drws

Ansoddair ddim yn treiglo ar
ôl enw gwrywaidd:

y bachgen **da**
y coleg **mawr**
y drws **melyn**

Rhifau + y gair:

dau + **TM**
tri + **TLI**
pedwar + **X**
chwe + **TLI**

Enwau benywaidd

Treigladd meddal ar ôl 'y':

y **f**erch
y **dd**esg
y **g**adair

Ond x 'll/rh' – y rhaglen

Ansoddair yn treiglo'n feddal
ar ôl enw benywaidd:

y ferch **g**lyfar
y ddesg **f**awr
y gadair **g**och

Rhifau + y gair:

dwy + **TM**
tair + **X**
pedair + **X**
chwe + **TLI**



Cenedl enwau:


Gydag enwau gwrywaidd, rydyn ni'n defnyddio hwn e.e. y cwestiwn hwn.

Gydag enwau benywaidd, rydyn ni'n defnyddio hon e.e. y gadair hon.

Gydag enwau llosog, rydyn ni'n defnyddio hyn e.e. y disgyblion hyn.



Beth am eiriau meysydd penodol?



Yn eich grwpiau, penderfynwch ar bwnc, thema neu Faes Dysgu a Phrofiad a meddyliwch am enwau perthnasol.

Gwnewch restr ohonyn nhw ac edrychwch yn y geiriadur i weld os ydyn nhw'n enwau gwrywaidd neu'n enwau benywaidd.

Beth am ddisgrifio'r enwau hynny?




Defnyddiwch y diagram Venn i roi trefn ar yr enwau



Enw gwrywaidd (eg)

Enw benywaidd (eb)



Mathemateg a Rhifedd



Enw gwrywaidd (eg)

Enw benywaidd (eb)

y rhif hwn

(egb)

y **g**yfryfiannell hon

y munud hwn

y **f**unud hon




Pwnc/ thema/ maes:



enw gwrywaidd (eg)

enw benywaidd (eb)



(egb)



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAith



www.athrofa.cymru

Sut ydyn ni'n gwybod ydy enwau'n fenywaidd neu'n wrywaidd?

Mae modd gwirio yn y geiriadur neu mae yna glwbiau ar gael...



CHWARAE CHWAP!!





Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGOR iaith

www.athrofa.cymru

Pa un sy'n gywir?



Pa un sy'n gywir?

y gwaith

y waith



Pa un sy'n gywir?

y desg

y ddesg




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales


RHAG  **Riaith**

www.athrofa.cymru

Pa un sy'n gywir?



y pennaeth



y bennaeth



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAG  **Riaith**

www.athrofa.cymru

Pa un sy'n gywir?

y fynedfa

y mynedfa



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAG  **Riaith**

www.athrofa.cymru

Pa un sy'n gywir?

y farn

y barn





Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales


RHAGOR iaith

www.athrofa.cymru

Pa un sy'n gywir?



Pa un sy'n gywir?



y pêl



y bêl



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGOR iaith

www.athrofa.cymru

Forms :

<https://forms.office.com/r/sd0kXFRm5N>

Adolygu Cenedl Enwau - Darlith 5
a 6



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGOR iaith

www.athrofa.cymru

Gair o gyngor




enw benywaidd	ebg	enw gwrywaidd

Pan fyddwch
chi'n gorfod
chwilio am air
yn y geiriadur
dro ar ôl tro,
gwnewch dabl
fel hyn i'ch
helpu chi ...



Munud i feddwl ...

Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?




Grŵp o
dri




Ymarfer ar
lafar (yn
unigol)




Help llaw




Amser
canu



Tasg
ysgrifennu



Gwaith
grŵp



Da iawn chi!



Daliwch ati!